Croeso i Ddosbarth Cychod

Dewch i gael cip ar beth sy'n digwydd yn ein dosbarth tymor hyn:

Eleni mae yna 31 o ddisgyblion yn ein dosbarth; 13 o flwyddyn 6 ac 18 o flwyddyn 5. Ein hathro dosbarth yw Mr Thomas ac ein cynorthwydd yw Miss Prince.

Iaith

Byddwn yn canolbwyntio ar ysgrifennu nifer o destunau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Rhaid sicrhau bod eich plentyn yn darllen rhywbeth BOB NOS. Mae llyfrau darllen Saesneg a Chymraeg yn cael eu newid drwy'r wythnos felly mae'n hanfodol bod eich plentyn yn cofio dod â'u llyfrau a chofnod darllen i'r ysgol bob dydd. Rydym hefyd wedi gosod llyfrau darllen mewn ffolder ar gyfri Hwb pob plentyn er mwyn rhoi mwy o amrywiaeth i ddisgyblion a rieni.

Rhifedd

Byddwn yn datblygu sgiliau rhif, siâp, trin data a rhesymu yn ystod y flwyddyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ceisiwch sicrhau bod eich plentyn yn parhau i ddysgu tablau trwy ddefnyddio TT Rock stars neu J2blast ar HWB.

Thema

Ein thema y tymor hwn yw 'Cymru a Thu Hwnt' a bydd y disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau o fewn y chwe maes dysgu.

Ymarfer Corff



Bydd ymarfer corff ar ddydd Llun. Mae angen gwisgo dillad addas ar gyfer y sesiwn yma. Bydd angen trowsus ymarfer corff hir / siorts tywyll, crys-t lliwiau tŷ ac esgidiau rhedeg.

**Noder –* *Yn ystod y cyfnod Covid-19 mae angen i bob plentyn wisgo ei wisg addysg gorfforol i'r ysgol ar ddiwrnod ei sesiwn addysg gorfforol. Ni fydd yr ystafelloedd newid ar agor.*

Tasgau Dysgu Adref

Mi fydd dysgu adref yn cael ei osod ar Ddydd Gwener a disgwylir i'r disgyblion ei gyflawni erbyn Dydd Mawrth. Mae'r tasgau'n cael eu gosod mewn Google Classroom o fewn Hwb.